



AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOW

RHEOLAU SEFYDLOG

mewn perthynas â

CHONTRACTAU

Dyddiad Adolygu: 2017

CYNNWYS

Rhif y Rheol Sefydlog		Rhif y Dudalen
1.	Cymhwyso a Dehongli'r Rheolau Sefydlog	3
2.	Cydymffurfio â Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddebau'r Gymuned Ewropeaidd (GE)	4
3.	Contractau sydd heb fod yn uwch na £25,000	5
4.	Contractau sy'n uwch na £25,000	6
5.	Tendro Detholus – Rhestr Ad Hoc	7
6.	Tendro Detholus – Rhestr Sefydlog	8
7.	Tendro Agored	9
8.	Cyflwyno Tendrau	10
9.	Agor a Derbyn Tendrau	11
10.	Addasu Tendrau	12
11.	Is-gontractwyr a Chyflenwyr Enwebedig	13
12.	Amodau Contract	14
13.	Indemniad ac Yswiriant	15
14.	Polisi Prynu Amgylcheddol	16
15.	Dethol Contractwyr	17

Rheol Sefydlog Rhif 1
Cymhwyso a Dehongli'r
Rheolau Sefydlog

Cymhwyso

- I.1 Amcan y Rheolau Sefydlog hyn yw sicrhau bod yr Awdurdod yn ymrwymo i gcontractau ar gyfer cyflenwi a/neu waredu nwyddau, deunyddiau a gwasanaethau neu ar gyfer cyflawni gwaith ar y telerau economaidd mwyaf ffafriol trwy gymhwyso'r arferion a gweithdrefnau mwyaf cynaliadwy, moesegol, cyson a thryloyw.
Bydd ymrwymo i'r contractau hyn ddarostyngedig i'r Rheolau Sefydlog hyn a'r Rheoliadau Ariannol ar bob adeg.
- I.2 Mewn perthynas â "Chontractau ar gyfer Gwaith" a "Gwaith Swyddogaethol" fel a ddiffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 a Deddf Llywodraeth Leol 1988 a phob deddfiad arall, mae'n rhaid ymlynu wrth ddarpariaethau ychwanegol y Deddfau hynny.

Dehongli

- I.3 At ddiben y Rheolau Sefydlog hyn:

mae "swyddog awdurdodedig" yn golygu swyddog o'r Awdurdod a awdurdodwyd yn briodol i lofnodi Archebion ar ran yr Awdurdod hyd at lefel a nodir yn Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod;

bydd y term "contract" yn gymwys i bob cytundeb gan neu gyda'r Awdurdod ac un neu fwy o bartion ar gyfer cyflenwi neu waredu nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau neu ar gyfer cyflawni gwaith ond ni fydd yn cynnwys contractau cyflogaeth na chontractau i werthu a phrynu unrhyw fuddiant mewn tir;

mae "dyfynbris" yn golygu cynnig ysgrifenedig a wnaed gan gyflenwr mewn ymateb i gais a gafwyd gan y swyddog priodol o'r Awdurdod mewn perthynas â chyflenwi a/neu waredu nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau neu i gyflawni gwaith;

mae "tendr" yn golygu cynnig wedi'i selio i gyflenwi neu dderbyn nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau neu i gyflawni gwaith na ellir ond

ei ddiwygio a/neu ei amrywio yn unol â darpariaethau'r Rheolau Sefydlog hyn;

Bydd "gwerth" contract yn golygu'r cyfanswm gwerth trwy gydol cyfnod y contract.

Bydd "cyfryngau priodol" yn cynnwys gwefan gaffael y sector cyhoeddus a weithredir gan Gwerth Cymru, wedi'i hategu gan gyhoeddiadau, gwefannau neu gyfryngau electronig arbenigol neu leol os yw'r Prif Weithredwr neu swyddog cyfrifol yn ystyried bod y rhain yn briodol.

Rheol Sefydlog Rhif 2.
Cydymffurfio â Rheolau Sefydlog a
Chyfarwydddebau'r Gymuned
Ewropeaidd (GE)

- (1) Dylai pob contract a wneir gan yr Awdurdod neu gan Bwyllgor neu swyddog sy'n gweithredu ar ei ran gydymffurfio â'r rheolau sefydlog hyn oni bai y rhoddyd esemptiad yn unol â pharagraff (5) o'r Rheol hon.
- (2) Dylai pob contract o'r fath gydymffurfio â Chytuniad Rhufain ac â phob deddfwriaeth berthnasol gan yr Undeb Ewropeaidd sydd mewn grym ar y pryd yn y Deyrnas Unedig.
- (3) Mae darpariaethau'r Rheolau Sefydlog hyn yn ddarostyngedig hefyd i ba bynnag Gyfarwydddebau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan yr Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â chontractau gwaith cyhoeddus, cyflenwi cyhoeddus a gwasanaeth cyhoeddus.

(Mae'r Cyfarwydddebau hyn yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer hysbysebu a dyfarnu contractau ar gyfer cyflenwadau, adeiladu a gwasanaethau gan y sector cyhoeddus.)

- (4) Dylai fod yn un o amodau unrhyw gontract rhwng yr Awdurdod ac unrhyw berson (nad yw'n un o swyddogion yr Awdurdod) y mae'n ofynnol iddo oruchwylio contract ar ei ran, y dylai, mewn perthynas â chontract o'r fath, gydymffurfio â gofynion pa bynnag reolau sefydlog sy'n berthnasol i gontractau fel pe bai'n un o swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod.
- (5) Gall esemptiad o unrhyw ddarpariaethau a ganlyn yn y rheolau sefydlog hyn gael ei wneud trwy gyfarwyddyd gan yr Awdurdod, Pwyllgor a awdurdodwyd yn briodol ar ei ran, neu ar gyfer contractau sydd heb fod yn uwch na £5000, dau swyddog ag awdurdod dirprwyedig priodol (fel y darperir ar ei gyfer yn RhS 3), lle maent wedi'u hargyhoeddi bod cyfiawnhad dros yr esemptiad dan amgylchiadau arbennig ac na fyddai'n golygu bod yr Awdurdod yn torri deddfwriaeth berthnasol.
- (6) Dylai pob esemptiad a wneir trwy gyfarwyddyd gan Bwyllgor y mae'r pŵer i wneud contractau wedi'i ddirprwyo iddo gael ei wneud yn hysbys mewn adroddiad i'r Awdurdod.

- (7) Os nad yw'n cael ei wneud yng nghofnodion yr Awdurdod, dylai cofnod o unrhyw esemptiad a wnaed yn unol â pharagraff (5) o'r Rheol hon gael ei wneud yng nghofnodion y Pwyllgor y caiff yr adroddiad y cyfeirir ato yn y rheol sefydlog honno ei gyflwyno iddo.
- (8) Mewn cysylltiad â chaffael yn gyffredinol, caniateir cyswllt anffurfiol rhwng yr Awdurdod a chyflenwyr neu ddarpar gyflenwyr, ond wrth negodi dylid cadw tystiolaeth ddogfennol o bob trafodaeth a chanlyniad.

Rheol Sefydlog Rhif 3
Contractau sydd heb fod
yn uwch na £25,000

- (1) Os oes fframwaith cenedlaethol yn bodoli mae'n rhaid ei ddefnyddio os yw'n sicrhau'r gwerth gorau i'r Awdurdod.
- (2) Bydd pob gwahoddiad i ddarparu dyfynbrisiau ysgrifenedig yn cynnwys y geiriad canlynol mewn perthynas â *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000*.

*“Mae'n rhaid i'r Awdurdod gyflawni ei rwymedigaethau dan **Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000** (y 'Ddeddf') a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Mae'r Ddeddf yn rhoi mynediad i'r cyhoedd at wybodaeth gofnodedig a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus. Felly trwy barhau â'r tendr neu'r dyfynbris hwn rydych yn cytuno y bydd rhai eitemau penodol o wybodaeth yn cael eu rhyddhau os gofynnir amdanynt dan y Ddeddf. Sylwer, fodd bynnag, y bydd gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol wedi'i diogelu dan adran 43 o'r Ddeddf, ac felly y bydd wedi'i hesemptio rhag cael ei datgelu yn amodol ar brawf budd y cyhoedd. Er mwyn adnabod yr wybodaeth yr ydych chi'n ystyried ei bod yn 'wybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol', a fydddech cystal â nodi hynny, ac am ba hyd y mae'n 'wybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol' yn eich tyb chi, ar atodiad i'ch tendr. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Awdurdod i benderfynu a yw'r esemptiad dan a43 yn gymwys ai peidio wrth ystyried ceisiadau am wybodaeth.”*

- (3) Lle mae contract arfaethedig heb fod yn fwy na £2,000 mae'n rhaid i'r Swyddog awdurdodedig wahodd dim llai na 3 dyfynbris ar lafar, ac eithrio lle mae llai na 3 darparwr ar gael. Dylid cadw nodiadau priodol o ddyfynbrisiau o'r fath ac mae'n rhaid i Swyddogion allu dangos gwerth am arian. Lle mae contract arfaethedig heb fod yn fwy na £500 dylai'r Swyddog awdurdodedig geisio dim llai na 3 dyfynbris hyd y bo'n rhesymol ac yn sicrhau gwerth gorau i'r Awdurdod.
- (4) Lle mae contract arfaethedig rhwng £2,001 a £10,000 mae'n rhaid i'r Swyddog awdurdodedig wahodd dim llai na 3 dyfynbris ysgrifenedig, ac eithrio lle mae llai na 3 darparwr ar gael. Mae'n rhaid i Swyddogion allu dangos gwerth am arian.
- (5) Lle mae contract arfaethedig yn fwy na £10,000 ond heb fod yn uwch na £25,000 mewn gwerth neu swm, mae'n rhaid i'r Swyddog awdurdodedig hysbysebu'r contract mewn “cyfryngau priodol”. Ym mhob achos mae'n rhaid cadw tystiolaeth ysgrifenedig o'r broses gaffael ac o ymarfer ffurfiol i werthuso dyfynbrisiau.

Lle mae'r Awdurdod wedi hysbysebu contract dan Reol Sefydlog 3 (4) gellir gwahodd cyflenwyr ychwanegol i roi dyfynbris ar yr un telerau â'r rhai a hysbysebwyd, yn ôl disgrisiwn y swyddog awdurdodedig.

- (6) Lle mae gwerth contract arfaethedig yn cyfateb i neu heb fod yn uwch na £5,000, ac y gellir dadlau:
- a) bod y gofyniad am y nwyddau neu wasanaethau'n un brys yn yr ystyr nad oes digon o amser i gyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf yr APC i atal Rheolau Sefydlog Contractau; neu
 - b) y byddai risg i enw da'r Awdurdod trwy ddyfarnu'r contract i sefydliad gwahanol i'r cyflenwr a ddetholwyd; neu
 - c) mai dim ond un cyflenwr priodol sydd ar gyfer y nwyddau neu wasanaethau

yna dylid cyflwyno'r achos yn ysgrifenedig i ddau o'r deiliaid swyddi canlynol nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol â'r broses gaffael, sef y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cefn Gwlad, y Cyfarwyddwr Cynllunio, y Swyddog Adran 151 neu'r Swyddog Monitro ac ar yr amod bod y ddau ddeiliad swydd y cyflwynwyd yr achos iddynt yn cadarnhau'n ysgrifenedig eu bod yn cytuno, yna dylid ystyried bod Rheol Sefydlog Contractau 3(1) wedi cael ei hatal.

Rheol Sefydlog Rhif 4
Contractau sy'n uwch na
£25,000

Lle amcangyfrifir bod gwerth neu swm contract arfaethedig yn uwch na £25,000 ac mewn unrhyw achos arall lle mae'r Awdurdod neu bwyllgor priodol yn penderfynu, dylai contractwyr gael eu dethol gan y Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr Adran priodol gan ddefnyddio un o'r dulliau canlynol:-

- i) Tendo detholus ad hoc dan Reol Sefydlog 5
 - ii) Tendo detholus o blith contractwyr cymeradwy dan Reol Sefydlog 6
 - iii) Tendo cystadleuol agored trwy hysbysebu ar wefan gaffael Llywodraeth Cymru, a "chyfryngau priodol" eraill os yw'n ofynnol, dan Reol Sefydlog 7
-
- (1) Os amcangyfrifir bod gwerth contract arfaethedig yn uwch na Throthwy gysylltiedig yr UE, mae'n rhaid ei hysbysebu yn unol â Rheoliadau'r UE ac mae'n rhaid ei gadarnhau gyda'r Rheolwr Cyllid.
 - (2) Mae'n rhaid dyfarnu'r contract ar sail y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd, yn ôl asesiad yr Awdurdod, neu swyddog a awdurdodwyd yn briodol yn y cyswllt hwnnw.
 - (3) mae'n rhaid i'r Awdurdod a swyddogion a awdurdodwyd yn briodol ganddo roi sylw i'r polisi a chanllawiau caffael a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru o brys i'w gilydd ar gyfer prosesau caffael â gwerth uwch na £25,000,

- (4) Bydd pob gwahoddiad i dendro yn cynnwys y geiriad canlynol mewn perthynas â *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* fel rhan o'r ddogfennaeth tendro;

*“Mae'n rhaid i'r Awdurdod gyflawni ei rwymedigaethau dan **Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000** (y 'Ddeddf') a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Mae'r Ddeddf yn rhoi mynediad i'r cyhoedd at wybodaeth gofnodedig a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus. Felly trwy barhau â'r tendr neu'r dyfynbris hwn rydych yn cytuno y bydd rhai eitemau penodol o wybodaeth yn cael eu rhyddhau os gofynnir amdanynt dan y Ddeddf. Sylwer, fodd bynnag, y bydd gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol wedi'i diogelu dan adran 43 o'r Ddeddf, ac felly y bydd wedi'i hesemptio rhag cael ei datgelu yn amodol ar brawf budd y cyhoedd. Er mwyn adnabod yr wybodaeth yr ydych chi'n ystyried ei bod yn 'wybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol', a fyddech cystal â nodi hynny, ac am ba hyd y mae'n 'wybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol' yn eich tyb chi, ar atodiad i'ch tendr. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Awdurdod i benderfynu a yw'r esemptiad dan a43 yn gymwys ai peidio wrth ystyried ceisiadau am wybodaeth.”*

Rheol Sefydlog Rhif 5
Tendro Detholus – Rhestr
Ad Hoc

- (1) Bydd y rheol sefydlog hon yn berthnasol lle mae'r Awdurdod neu Bwyllgor a awdurdodwyd yn briodol ar ei ran wedi penderfynu bod gwahoddiadau i dendro am contract yn mynd i gael eu hanfon at rai neu bob un o'r bobl neu gyrff hynny sydd wedi ymateb i hysbysiad cyhoeddus. Ym mhob achos lle nad oes penderfyniad penodol wedi cael ei wneud ymlaen llaw, gall y Prif Weithredwr neu swyddog a awdurdodwyd yn briodol benderfynu defnyddio'r dull tendro hwn.
- (2) At ddibenion y rheol sefydlog hon, dylai hysbysiad cyhoeddus gael ei roi trwy:
 - (a) Hysbysiad a gyhoeddir ar wefan gaffael Llywodraeth Cymru, a "chyfryngau priodol" eraill, a bennwyd gan y Prif Weithredwr neu swyddog arall a awdurdodwyd yn briodol at y diben.
- (3) Dylai'r hysbysiad cyhoeddus:
 - (a) Nodi manylion y contract y mae'r Awdurdod yn dymuno ymrwymo iddo;
 - (b) Gwahodd pobl neu gyrff sydd â diddordeb i ymgeisio am ganiatâd i dendro;
 - (c) nodi terfyn amser, nad yw'n llai nag 14 diwrnod, ar gyfer cyflwyno ceisiadau o'r fath i'r Awdurdod; a
 - (d) Datgan y meini prawf a fydd yn cael eu cymhwyso gan yr Awdurdod i ddethol cyflenwyr posibl.
- (4) Wedi i'r cyfnod a nodir yn yr hysbysiad cyhoeddus ddod i ben dylid anfon gwahoddiadau i dendro am y contract at:
 - (a) ddim llai na 4 o'r bobl neu'r gyrff a ymgeisiodd am ganiatâd i dendro, a'r rheiny wedi'u dethol gan y Prif Weithredwr neu swyddog a awdurdodwyd yn briodol;
 - (b) lle mae llai na 4 o bobl neu gyrff wedi ymgeisio neu'n cael eu hystyried yn addas, y bobl neu'r gyrff hynny y mae'r Prif Weithredwr neu swyddog

awdurdodedig yn ystyried eu bod yn addas. Fel arall, gellir ail-hysbysebu'r contract.

Rheol Sefydlog 6
Tendro Detholus – Rhestr
Sefydlog

- (1) Bydd y rheol sefydlog hon yn gymwys os yw'r Awdurdod neu Bwyllgor priodol neu'r Prif Weithredwr yn penderfynu y dylai gwahoddiadau i dendro am gontract fod yn gyfyngedig i'r bobl neu'r cyrff hynny y mae eu henwau wedi cael eu cynnwys mewn rhestr a luniwyd ac sy'n cael ei chynnal at y diben hwnnw, ar ffurf 'cytundeb fframwaith' a gynhelir ac a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru trwy Gwerth Cymru neu gan Swyddfa Gaffael y Llywodraeth.
- (2) Dylai Swyddogion drefnu bod gwahoddiadau i dendro am gontract yn cael eu hanfon at:
- (a) ddim llai na thri chyflenwr posibl sydd wedi'u cynnwys ar y rhan berthnasol o gytundeb fframwaith addas
 - (b) lle mae llai na thri chyflenwr posibl wedi'u cymeradwyo ar gyfer contract o'r categori a swm perthnasol, pawb ar y cytundeb fframwaith.

Rheol Sefydlog Rhif 7

Tendro Agored

- (1) Bydd y rheol sefydlog hon yn gymwys naill ai lle mae gwerth y contract yn uwch na £25,000 neu lle mae'r Awdurdod neu swyddog a awdurdodwyd yn briodol yn y cyswllt hwnnw wedi penderfynu y dylid cael tendrau am gontract trwy gystadleuaeth agored.
- a) Dylai'r tendr gael ei hysbysebu ar wefan gaffael Llywodraeth Cymru ac, os yw'r swyddog awdurdodedig yn penderfynu bod hynny'n briodol, mewn "Cyfryngau priodol" gan roi o leiaf 14 diwrnod o rybudd o'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau.
 - b) Mae'n rhaid i'r meini prawf a fydd yn cael eu defnyddio i ddyfarnu'r contract gael eu darparu gyda'r hysbyseb a'r ddogfennaeth sy'n cyd-fynd â hi.
 - c) Mae'n rhaid i gyfarwyddiadau ar gyfer cyflwyno tendrau gael eu cynnwys yn yr hysbyseb.

Rheol Sefydlog Rhif 8

Cyflwyno Tendrau

Gellir cyflwyno tendrau naill ai ar bapur neu'n electronig gan gydymffurfio â'r amodau canlynol:-

- (1) Lle anfonir gwahoddiad i dendro yn unol â'r rheolau sefydlog hyn, dylai pob gwahoddiad ddatgan na fydd yr un tendr papur yn cael ei dderbyn oni bai ei fod wedi'i amgáu mewn amlen blaen wedi'i selio a'i arnodi â'r gair "Tendr" ac yna teitl y contract y mae'n ymwneud ag ef ond dim enw na marc arall sy'n dynodi pwy yw'r anfonwr. Mae'n rhaid cyfeirio'r Tendr at y Rheolwr Cyllid.
- (2) Dylid cadw tendrau papur wedi'u selio yng ngofal y Rheolwr Cyllid tan yr amser a'r dyddiad a nodir ar gyfer eu hagor.
- (3) Mae'n rhaid i dendrau electronig gael eu cyflwyno trwy flwch post electronig diogel a gaiff ei gynnal gan yr Awdurdod at y diben hwn neu drwy flwch post electronig diogel a ddarperir ac a gynhelir gan Lywodraeth Cymru ar ei gwefan gaffael.
- (3) Ni fydd unrhyw dendr sy'n dod i law ar ôl yr amser a'r dyddiad a nodir yn y gwahoddiad yn cael ei dderbyn na'i ystyried dan unrhyw amgylchiadau.

Rheol Sefydlog Rhif 9
Agor a Derbyn Tendrau

- (1) Dylai tendrau a gafwyd dan Reol Sefydlog 5, 6 neu 7 gael eu hagor ar yr un pryd a dim ond yng ngŵydd y Cyfarwyddwr Adran priodol a'r Rheolwr Cyllid neu unrhyw gynrychiolwyr a awdurdodwyd yn briodol. Gellir ateb y gofyniad hwn gyda thendrau a gyflwynir yn electronig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 8, trwy ganiatáu mynediad gan swyddogion awdurdodedig penodol (gan gynnwys y Rheolwr Cyllid) dim ond ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno.
- (2) Dylid cofnodi pob tendr sy'n dod i law.

Rheol Sefydlog Rhif 10

Addasu Tendrau

(I) Cywiro Gwallau mewn Tendrau

- (a) Bydd y trefniadau canlynol yn gymwys lle mae archwilio tendrau'n datgelu gwallau neu anghysonderau rhifyddol sydd mewn unrhyw dendrau ac a fyddai'n effeithio ar y pris yn y tendr. Bydd y Pennaeth Adran priodol yn penderfynu a fyddir yn gofyn i'r tendrwr naill ai:
- cadarnhau'r tendr gwreiddiol, gyda'r opsiwn i'w dynnu'n ôl; neu
 - gadarnhau'r tendr gwreiddiol, gyda'r opsiwn i'w adolygu yn dilyn cywiro'r gwallau a'r anghysonderau.
- (b) Os yw'r tendrwr yn dewis cadarnhau'r tendr gwreiddiol yna dylid ychwanegu arnodiad at y bil(iau) a brisiwyd i ddynodi y dylid ystyried bod yr holl gyfraddau neu brisiau (heb gynnwys eitemau crai, treuliau annisgwyl, costau cyntaf a symiau dros dro) a roddwyd i mewn gan y tendrwr wedi'u gostwng neu'u cynyddu yn ôl yr un gyfran ag y mae cyfanswm cywiredig yr eitemau a brisiwyd yn fwy neu'n llai na'r eitemau hynny. Dylai'r arnodiad gael ei lofnodi gan y ddau barti i'r contract.
- (c) Os rhoddir caniatâd i'r contractwr addasu'r tendr i gywiro'r gwallau a'r anghysonderau, a'i fod yn dewis gwneud hynny, yna dylid ychwanegu arnodiad priodol at y biliau a dylai hwnnw gael ei lofnodi gan y ddau barti i'r contract.

Rheol Sefydlog Rhif 11
Is-gontractwyr a Chyflenwyr
Enwebedig

Lle bwriedir enwebu is-gontractwr neu gyflenwr i brif gontractwr, bydd y darpariaethau canlynol mewn grym:

- (1) Lle amcangyfrifir bod swm yr is-gontract neu werth y nwyddau a fydd yn cael eu cyflenwi gan y cyflenwr enwebedig heb fod yn uwch na £25,000, yna oni bai fod y Cyfarwyddwr Adran priodol o'r farn mewn perthynas ag unrhyw enwebiad penodol nad yw'n rhesymol ymarferol cael dyfynbrisiau cystadleuol, dylid gwahodd dyfynbrisiau ar gyfer yr enwebiad.
- (2) Lle amcangyfrifir bod swm yr is-gontract neu werth y nwyddau a fydd yn cael eu cyflenwi gan y cyflenwr enwebedig yn uwch na £25,000, yna oni bai fod yr Awdurdod neu swyddog a awdurdodwyd yn briodol ar ei ran yn penderfynu, mewn perthynas ag unrhyw enwebiad penodol nad yw'n rhesymol ymarferol cael dyfynbrisiau cystadleuol, dylid gwahodd dyfynbrisiau yn unol â naill ai Rheol Sefydlog 5, 6 neu 7 fel y digwydd.

Rheol Sefydlog Rhif 12

Ffurf a Chynnwys Contractau

- (1) Dylai pob contract:
- (a) fod yn ysgrifenedig a chael ei awdurdodi gan un o swyddogion yr Awdurdod a awdurdodwyd yn briodol ar ei ran;
 - (b) nodi'r canlynol:
 - i) y nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau a fydd yn cael eu cyflenwi a'r gwaith a fydd yn cael ei gyflawni;
 - ii) y pris a fydd yn cael ei dalu ynghyd â datganiad ynghylch swm unrhyw ddisgownt(iau) neu ostyngiad arall/gostyngiadau eraill;
 - iii) y cyfnod(au) pan fwriedir i'r contract gael ei gyflawni
 - iv) unrhyw iawndal penodedig sy'n daladwy gan y contractwr os oes darpariaeth o'r fath yn ofynnol yn unol â pharagraff (l) (c) isod;
 - v) y manylebau a'r safonau y bwriedir eu cymhwyso i'r contract;
 - vi) y drefn ar gyfer monitro'r contract, ynghyd â rheolaethau ar is-gontractwyr;
 - vii) pa bynnag amodau a thelerau a gaiff eu cytuno rhwng y partion;
 - (c) os yw'r Prif Weithredwr neu swyddog awdurdodedig yn ystyried bod hynny'n briodol ar ôl ymgynghori â darparwr gwasanaethau cyfreithiol yr Awdurdod, dylai fod darpariaeth ar gyfer iawndal penodedig neu sicrwydd digonol arall ar gyfer perfformiad priodol; a hefyd
 - (d) cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol
- (2) Dylid mewnosod ym mhob contract ysgrifenedig, yn ychwanegol at amodau sy'n ymdrin â'r materion a nodir ym mharagraff l(b) uchod, gymal sy'n grymuso'r Awdurdod i ddileu'r contract ac i adfer gan y contractwr swm unrhyw golled sy'n deillio o ganslo yn y fath fodd, os bydd y contractwr wedi cynnig, neu wedi rhoi,

neu wedi cytuno rhoi i unrhyw berson, unrhyw rodd neu gydnabyddiaeth o unrhyw fath fel cymhelliad neu wobwr am wneud, neu ymatal rhag gwneud, neu am fod wedi gwneud, neu am fod wedi ymatal rhag gwneud unrhyw weithred mewn perthynas â chael neu gyflawni'r contract, neu unrhyw gontract arall gyda'r Awdurdod, neu, am ddangos neu ymatal rhag dangos ffafriaeth, neu anffafriaeth, i unrhyw berson mewn perthynas â'r contract, neu unrhyw gontract arall gyda'r Awdurdod; neu os bydd y gweithredoedd wedi cael eu gwneud gan unrhyw berson a gyflogir ganddo, neu sy'n gweithredu ar ei ran (boed yn wybod neu heb yn wybod i'r contractwr), neu, os bydd y contractwr neu unrhyw berson a gyflogir ganddo, neu sy'n gweithredu ar ei ran, mewn perthynas ag unrhyw gontract gyda'r Awdurdod, wedi cyflawni unrhyw drosedd dan Ddeddfau Atal Llygredigaeth 1889 i 1916, neu, os bydd wedi rhoi unrhyw ffi neu wobwr, y mae ei derbyn yn drosedd dan Adran 117(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

- (3) Dylai cofrestr o'r holl gontractau dros £25,000 yr ymrwymwyd iddynt ar ran yr Awdurdod gael ei chadw a'i chynnal gan y Rheolwr Cyllid. Ar gyfer pob contract, dylai'r gofrestr honno nodi enw'r contractwr, y gwaith a fydd yn cael ei gyflawni neu'r nwyddau a fydd yn cael eu cyflenwi a gwerth y contract. Dylai'r gofrestr fod yn agored i gael ei harchwilio gan unrhyw aelod o'r Awdurdod neu'r cyhoedd.

Rheol Sefydlog Rhif 13

Indemniad ac Yswiriant

Mewn unrhyw gontract i gyflawni unrhyw waith neu i gyflenwi nwyddau neu deunyddiau, dylai fod yn ofynnol i'r Contractwr indemnio'r Awdurdod yn erbyn:

- (a) unrhyw hawliad a allai gael ei wneud mewn perthynas ag Atebolrwydd Cyflogwr yn erbyn yr Awdurdod neu'r contractwr gan unrhyw weithiwr a gyflogir gan y contractwr neu unrhyw is-gontractwr mewn perthynas â chyflawni'r gwaith;
- (b) unrhyw hawliad am anaf corfforol i drydydd partïon neu ddifrod i eiddo trydydd partïon hyd at werth o £2 filiwn o leiaf;

Cyn bod unrhyw gontract yn dechrau, dylai'r contractwr ddangos tystiolaeth foddhaol o yswiriant yn erbyn hawliadau o'r fath i'r swyddog sy'n gyfrifol

Rheol Sefydlog Rhif 14
Polisi Prynu Cynaliadwy

- (1) Ar gyfer prosesau caffael â chyfanswm gwerth sy'n uwch na £25,000, dylid cwblhau asesiad o risg i gynaliadwyedd yn unol â pholisi caffael Llywodraeth Cymru. Dylai cofnod o bob asesiad risg o'r fath gael ei gadw gan swyddog dynodedig yn y fformat gofynnol a dylid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru fel sy'n ofynnol.
- (2) Wrth werthuso unrhyw ddyfynbris neu dendr lle defnyddir proses sgorio, bydd un rhan o'r broses sgorio'n cynnwys cyfeiriad priodol at y canlynol:
- (a) costau oes gyfan: lleihau gwastraff, yr ynni a ddefnyddir neu effeithiau amgylcheddol anffafriol eraill wrth eu defnyddio a'u gwaredu;
 - (b) o ba bellter y mae nwyddau a gwasanaethau'n cael eu prynu
 - (c) arferion amgylcheddol a/neu system rheolaeth amgylcheddol cyflenwyr – ac achrediad allanol
 - (d) effaith ar gydraddoldeb ac amrywiaeth
 - (e) effaith gymdeithasol: effeithiau ar bobl a chymunedau
 - (f) materion moesegol

Fel arfer bydd penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan gyflenwyr neu gan wasg y fasnach a defnyddwyr

Rheol Sefydlog Rhif 15

Dethol Contractwyr

- (1) Bydd yr Awdurdod neu swyddog a awdurdodwyd yn briodol ganddo'n cymhwyso canllawiau polisi presennol Llywodraeth Cymru ynghylch dethol cyflenwyr a chymwysterau cyflenwyr ac yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Bydd contractwyr yn cael eu hanghymhwyso rhag cael eu hystyried ar gyfer unrhyw gontractau a osodir gan yr Awdurdod os yw unrhyw un o'r amodau ar gyfer anghymhwystra a nodir yn Rheoliad 57 (1-7) o'r Rheoliadau'n gymwys.
- (2) Bydd yr Awdurdod neu swyddog a awdurdodwyd yn briodol ganddo'n cynnal gwiriadau priodol ar sefyllfa ariannol, gonestrwydd, cyfrifoldeb amgylcheddol a chymdeithasol darpar gontractwyr, eu perthnasoedd presennol a blaenorol gyda'r Awdurdod a'i Aelodau a chyflogeion, gofynion yswiriant, cymhwysedd a chapasiti, cofnod o berfformiad a chydymffurfiaeth â Deddf yr Iaith Gymraeg. Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw i ganlyniad y gwiriadau hyn wrth ddethol contractwr yn unol â'r meini prawf a sefydlwyd ymlaen llaw fel rhan o'r broses ddethol.
- (3) Bydd yr Awdurdod neu swyddog a awdurdodwyd yn briodol ganddo'n cynnal cofnod o wybodaeth a geisiwyd ac a gafwyd, prosesau gwerthuso a meini prawf/trefn sgorio a gymhwyswyd fel oedd yn briodol i werth y broses gaffael. Bydd cofnodion o'r fath yn cynnwys diweddariadau i wefan gaffael y sector cyhoeddus a gynhelir gan Lywodraeth Cymru lle mae contract wedi cael ei hysbysebu ar y wefan.